

# Mae'n llond y nefoedd, llond y byd

## Caneuon Ffydd: Rhif 215

---

---

Mae'n llond y nefoedd, llond y byd,  
llond uffern hefyd yw;  
llond tragwyddoldeb maith ei hun,  
diderfyn ydyw Duw;  
mae'n llond y gwagle yn ddi-goll,  
mae oll yn oll, a'i allu'n un,  
anfeidrol, annherfynol Fod  
a'i hanfod ynddo'i hun.

Clyw, f'enaid tlawd, mae gennyf Dad  
sy'n gweld dy fwriad gwan,  
a Brawd yn eiriol yn y nef  
cyn codi o'th lef i'r lan:  
cred nad diystyr gan dy Dad  
yw gwrando gwaedd dymuniad gwiw,  
pe byddai d'enu yn rhy fud  
i'w dwedyd gerbron Duw.

EDWARD JONES, 1761–1836

### MYFYRDOD

Gosod allan rai o rinweddau a phriodoleddau Duw a wneir yn aml gan lawer o'n hemynwyr. Y gwaith mae Edward Jones wedi ei osod iddo'i hun yma yw sôn am hollbresenoldeb Duw, y ffaith ei fod yn bresennol ym mhob man ar yr un pryd. Pa mor ddefnyddiol bynnag fyddai nodwedd felly i ni blant y llawr, y gwir amdani yw mai Duw ydy'r unig un sydd berchen y priodoledd hwn.

Yn wahanol i rai o'n hemynwyr eraill, mae'n siŵr o fod yn wir dweud mai emynau 'athrawiaethol' sydd gennym yng ngwaith Edward Jones. Sylwodd rhai mor debyg yw ei ganu i waith yr hen garolwyr a oedd yn gosod tasg iddynt eu hunain o gynnwys cymaint o athrawiaeth iachus yn eu carolau ag yr oedd bosibl, gan mai felly y byddai'r bobl yn ei chlywed ac yn ei dysgu. Rhaid yw addef mai cwbl Gymreig ydy canu Edward Jones ac, yn wahanol i

Williams Pantycelyn, nid yw hi fel pe bai'r emyn Saesneg, mwy teimladwy, wedi cyffwrdd ag ef. Ymddiddorai Edward Jones yn fwy na Phantycelyn yng nghreffft barddoniaeth, ac er nad oedd yn feistr ar y gynghanedd, fe hoffai ei defnyddio, yn enwedig y sain, ynghyd â'r odlau mewnol:

*anfeidrol, annherfynol Fod*  
a'i hanfod ynddo'i hun.

Fe gychwynna yn y nefoedd, gan weld mai oddi yno y mae hollbresenoldeb Duw yn tarddu: 'Y nefoedd yw fy ngorsedd, a'r ddaear yw troedfainc fy nhraed' (Act. 7:49). Oddi yno fe deimlir ei ddyllanwad ym mhob man. Mae hyn yn golygu nad oes un dim na'r un person yn cael ei guddio oddi wrth Dduw, oherwydd 'Y mae llygaid yr Arglwydd ym mhob man, yn gwyllo'r drwg a'r da' (Diar. 15:3). Teimlodd y Salmydd hyn yn fyw iawn pan ysgrifennodd 'I ble yr af oddi wrth dy ysbryd? I ble y ffoaf o'th bresenoldeb? Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno; os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd' (Salm 139:7-8). Nid oes unman y gellir dianc rhagddo - 'llond uffern hefyd yw' ydy sylw Edward Jones wrth iddo adleisio'r Salm.

Ond os yw yno ym mhob man, y mae yno bob amser hefyd - 'llond tragwyddoldeb maith ei hun'. Mae'n gwybod y cyfan am ein sefyllfa a'n hanghenion, y mae'n 'gymorth parod mewn cyfyngder' (Salm 46:1), a dyna lle mae goblygiadau'r athrawiaeth yn ein cyffwrdd; er cymaint ei fawredd, ei hollbresenoldeb ac o'i herwydd, mae'n 'gweld dy fwriad gwan', a Iesu'n eiriol drosom yn y nef oherwydd ei fod yn agos atom i gyd. 'Y nesaf yw efe . . . at enaid gwan', meddai David Jones (rhif 76) wrth sylweddoli yntau hefyd beth oedd goblygiadau bod 'Duw yn llond pob lle, presennol ymhob man'. 'Y mae'r Arglwydd yno' (Jehovah Shammah) oedd anogaeth Duw i Eseciel pan gredai'r genedl fod Duw wedi eu gadael (Esec. 48:35). Dyna'i anogaeth i ninnau hefyd, ei fod yno ar ein cyfer ni, yn presennol bob amser ym mhob man.

## **GWEDDI**

O, Dad, boed i'r ffaith dy fod ti ym mhob man bob amser fod yn gysur imi ac nid yn ofid byth. Yr wyt ti'n mynd o 'mlaen i, gyda mi ym mhob rhyw amgylchiad, ac yn clywed fy llef bob amser. Helpa i eraill weld hefyd fy mod i'n byw yng nghysgod dy bresenoldeb di ac i minnau allu dangos dy fod ti yno ar eu cyfer hwythau hefyd. Yn enw'r un sydd gyda ni bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen.